| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **29 Gorffennaf 2014** |
| **TEITL :** | **Adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ymchwiliad i gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Nancy Clarke o Gyngor Tref Tywyn** |
| **AWDUR :** | **Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith** |
| **GWEITHREDU :** | **Ystyried sylwadau a phenderfynu'n derfynol ar adroddiad a baratowyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Cyf. 201301629)** |

**Cefndir**

1. Yn dilyn cwynion fod y Cynghorydd Nancy Clarke, wedi torri'r cod ymddygiad i aelodau, penderfynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gynnal ymchwiliad. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad y dylid cyfeirio'r mater at y Swyddog Monitro i'w hystyried gan y Pwyllgor Safonau. Mae adroddiad yr Ombwdsmon wedi ei ddarparu'n flaenorol i aelodau'r Pwyllgor.

2. Yn unol â gofynion Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau)(Cymru) 2001 ('y Rheoliadau'), ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yr Ombwdsmon yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2014. Daeth i'r casgliad, ar sail yr adroddiad hwnnw, y dylai'r Cynghorydd Clarke gael cyfle i gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei bod wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod.

**Adroddiad Ymchwiliad yr Ombwdsmon**

3. Gofynnir i'r Aelodau ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ac unrhyw sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Clarke.

4. Mae'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â honiadau a wnaed yn erbyn cynghorwyr ac a gyfeirir at y Pwyllgor i'w' weld yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad**

5. Bod y Pwyllgor ystyried yr honiad yn erbyn y Cyng. Clarke a dod i un o'r penderfyniadau sy'n agored iddo ei wneud. Mae'r Rheoliadau yn darparu bod rhaid i'r Pwyllgor, ar ôl ystyried unrhyw gynrychioliadau, ddod i un o'r penderfyniadau canlynol:

(a) nad oes dim tystiolaeth o unrhyw fethu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac felly nad oes angen cymryd camau mewn perthynas â'r materion sy'n destun yr ymchwiliad;

(b) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ond nad oes angen cymryd dim camau mewn perthynas â'r methiant hwnnw;

(c) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac y dylai gael ei geryddu; neu

(ch) bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod ac y dylai gael ei atal neu ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod o’r awdurdod hwnnw am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis